**Ymateb Estyn i'r ymgynghoriad gan Rhondda Cynon Taf ynghylch agor ysgol arbennig newydd 3-19 oed a chyflwyno dalgylchoedd i'r ysgolion arbennig yn y sir.**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

**Crynodeb/Casgliad**

Mae'r cynigion yn debygol o gynnal neu wella safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

**Disgrifiad a manteision**

Mae awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf (RhCT) wedi rhoi sail resymegol glir ar gyfer y cynnig i adeiladu ysgol arbennig newydd 3-19 oed, gan ddangos galw cynyddol am leoedd ysgol arbennig. Bydd y cynnig yn ychwanegu 180 lle ychwanegol at gapasiti'r sector ysgolion arbennig yn RhCT.

Mae'r cynnig yn llai clir am y sail resymegol dros gyflwyno dalgylchoedd ar gyfer yr ysgolion arbennig presennol a newydd arfaethedig. Y rheswm cyffredinol a roddir yw er mwyn i'r gwaith o ddyrannu lleoliadau ysgolion arbennig cael ei 'reoli'n well'. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth yw'r broblem â'r trefniant presennol, lle mae mwyafrif y disgyblion mewn ysgolion arbennig yn mynd i'r ysgol agosaf at eu cartref. Hefyd, nid yw Ysgol Arbennig Maesgwyn yn cael ei chynnwys ar y mapiau dalgylch yn y cynnig. Fodd bynnag, os bydd rhieni disgyblion ym Maesgwyn sy'n byw yn nalgylch ysgol arall yn penderfynu eu bod am i'w plant fod yn agosach at adref, bydd hynny'n effeithio ar niferoedd y disgyblion ym Maesgwyn. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r ysgol yn cael ei chynnwys yn llawn yn y cynnig.

Mae'n ymddangos bod RhCT wedi darparu disgrifiad manwl o'r cynnig hyd yn hyn. Mae'r amserlen arfaethedig a'r broses ar gyfer gweithdrefnau statudol wedi'u hamlinellu'n glir, gan gynnwys sut yr ymgynghorir â phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r dyddiad ar gyfer y sesiwn alw heibio arfaethedig yn disgyn yn ystod gwyliau'r haf a gallai hyn atal rhai staff, rhieni/gofalwyr a dysgwyr rhag cyfrannu. Ni roddir amserlen glir ar gyfer cyfnodau dilynol y cynnig y tu hwnt i'r dyhead y caiff yr ysgol newydd ei hadeiladu heb fod yn hwyrach na blwyddyn academaidd 2026.

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu'r manteision a'r anfanteision disgwyliedig yn glir ac yn deg o gymharu â'r sefyllfa sydd ohoni. Nid yw'n glir, fodd bynnag, pam mae'r cynigiwr o'r farn bod risg costau cludiant uwch yn sgil y cynnig.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried opsiynau yn lle'r cynnig ac mae'n rhoi rhesymau pam mae'r rhain wedi'u diystyru. Fodd bynnag, wrth ddatgan bod amrywiaeth o safleoedd eraill wedi'u hystyried ar gyfer yr ysgol newydd ac y defnyddiwyd nifer o feini prawf priodol i nodi'r mai'r safle ger Tonypandy oedd yn cael ei ffafrio, nid oes digon o wybodaeth ynghylch ble'r oedd y safleoedd eraill na pham y cawsant eu diystyru. O'r herwydd, mae'n anodd dod i gasgliad gwrthrychol ynghylch ai'r safle arfaethedig yw'r safle gorau.

Mae'r awdurdod lleol yn esbonio'n addas sut mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol yn ei asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn ysgol cyfrwng Saesneg. Mae'r cynnig yn esbonio manteision addysgu'r Gymraeg mewn cyfleusterau modern a'r cyfleoedd am ddefnydd cymunedol, a allai gynnwys dosbarthiadau Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn dweud yn glir pa gyfran o'r 670 o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig yn RhCT sy'n siaradwyr Cymraeg, p'un ai a yw eu niferoedd yn cynyddu ai peidio, a sut caiff eu hanghenion iaith eu diwallu.

Mae'r cynnig yn amcangyfrif mai cost dylunio ac adeiladu'r ysgol newydd fydd £53.5 miliwn. Daw hyd at 75% o'r cyllid ar gyfer ysgolion arbennig newydd gan Lywodraeth Cymru trwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a hyd at 100% o'r costau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gwneud yr ysgol yn un carbon sero net. Nid oes rhagor o wybodaeth am sut bydd yr awdurdod lleol yn ariannu ei gyfran o'r costau adeiladu na'r costau refeniw dilynol. Mae swyddfeydd cyngor ar y safle arfaethedig, a fydd yn cael eu gwacau cyn hir. Nid yw'n glir o'r cynnig p'un a fydd yr adeiladau presennol yn cael eu dymchwel i ganiatáu am adeiladu'r ysgol newydd, neu p'un a gânt eu hailwampio a'u haddasu.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae RhCT wedi ystyried effaith y cynigion ar yr ansawdd a'r safonau mewn addysg yn yr ysgol newydd ar gyfer pob un o 5 maes fframwaith arolygu cyffredin Estyn. Mae adeiladu cyfleusterau newydd, yn enwedig y rhai sy'n cyfrif am anghenion cymhleth disgyblion ysgol arbennig, yn debygol o gael effaith fuddiol ar eu dysgu a'u lles. Mae'r cynnig yn cynnwys crynodeb byr o'r deilliannau a'r argymhellion o adroddiadau arolygu diwethaf Estyn ar gyfer y pedair ysgol arbennig bresennol. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys unrhyw ystyriaeth o sut gallai'r ysgol newydd gael effaith gadarnhaol ar y sector ysgolion arbennig yn gyffredinol yn RhCT, er enghraifft trwy rannu arfer dda a dysgu proffesiynol.

Mae'r awdurdod lleol yn ceisio sicrhau bod y tarfu ar ddysgwyr yn cael ei leihau. Gan fod hon yn ysgol newydd, ar safle newydd, ni fydd tarfu ar ddysgwyr yn ystod y camau dylunio ac adeiladu. Pan gaiff yr ysgol newydd ei hagor a bydd y dalgylchoedd arfaethedig ar waith, ni fydd disgyblion yn cael eu trosglwyddo'n orfodol o un ysgol i ysgol arall. Bydd gan rieni disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol newydd opsiwn i symud eu plant yno os byddant yn dymuno gwneud hynny. Rhagwelir y bydd yr ysgol newydd yn 'tyfu'n organig' gydag amser. Fodd bynnag, ni ystyriwyd beth allai ddigwydd os bydd mwy o alw na nifer y lleoedd yn yr ysgol neu os na chaiff ei defnyddio'n llawn ar unwaith neu yn ddiweddarach.